Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith




# Adroddiad Dirmyg Llys (Rhan 1) ar Atebolrwydd

## Crynodeb o'r adroddiad

# Crynodeb o'r Adroddiad Dirmyg Llys (Rhan 1) ar Atebolrwydd

| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni** | Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth ydym yn ei wneud?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o gyfraith dirmyg llys ac yn ystyried yr angen i'w diwygio gyda'r bwriad o wella ei thegwch, ei heffeithiolrwydd, ei chysondeb a'i chydlyniant.<br>Ym mis Gorffennaf 2024 cyhoeddwyd papur ymgynghori gyda chynigion dros dro ar gyfer diwygio. Cyhoeddwyd papur ymgynghori atodol byr ym mis Mawrth 2025. Cawsom dros 150 o ymatebion i'n hymgynghoriadau.<br>Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad terfynol a'n hargymhellion mewn dwy ran. |
| **Beth yw'r ddogfen hon?** | Crynodeb o ran 1 o'n hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, yw'r ddogfen hon. Mae'n egluro beth yw pwrpas y prosiect ac yn tynnu sylw at ein hargymhellion allweddol ar gyfer diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag atebolrwydd am ddirmyg llys a rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achosion dirmyg. Nid yw'n crynhoi'r holl ddiwygiadau i'r gyfraith yr ydym yn eu hargymell yn rhan 1.<br>Mae adroddiad rhan 1 llawn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am bob pwnc, rhestr termau fanwl sy'n egluro termau allweddol sy'n ymwneud â chyfraith dirmyg, a'n holl argymhellion. |
| **Ble mae'r adroddiad llawn?** | Mae Rhan 1 o'r adroddiad llawn, ynghyd â dogfennau eraill, ar gael yn **https://lawcom.gov.uk/project/contempt-of-court/**. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Byddwn yn cyhoeddi rhan 2 o'n hadroddiad yn 2026.<br>Bydd y Llywodraeth yn ystyried ein hargymhellion ac yn penderfynu a ddylid newid y gyfraith. |

# Ein hadolygiad o ddirmyg llys

## Dirmyg llys

Mae cyfreithiau dirmyg llys yn amddiffyn budd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder. Pan fo ymddygiad yn ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder, neu'n creu risg o ymyrraeth, yna gall fod yn gyfystyr â dirmyg llys.

Mae cwmpas y gyfraith yn eang. Gellir cyflawni dirmyg mewn llys neu ei gyffiniau drwy, er enghraifft, amharu ar achosion llys, tynnu lluniau yn y llys, recordio neu ffrydio achosion llys yn fyw, ymosod ar staff y llys, neu wrthod ateb cwestiynau wrth roi tystiolaeth fel tyst. Gellir cyflawni dirmyg mewn ffyrdd eraill hefyd, gan gynnwys drwy fethu â chydymffurfio â gorchymyn llys, neu drwy gyhoeddi deunydd a allai beryglu achos troseddol drwy, er enghraifft, ddatgelu gwybodaeth nad yw'r rheithgor yn gwybod amdani.

Mae'r hawliau a'r buddiannau cyhoeddus y mae'r gyfraith yn ymwneud â nhw yn bwysig. Nid budd y cyhoedd mewn gweinyddu cyfiawnder yw'r unig fuddiant sydd yn y fantol. Mae hawliau treial teg diffynyddion yn ystyriaethau hollbwysig (gan gynnwys diffynyddion mewn achosion dirmyg a diffynyddion mewn achosion troseddol a allai gael eu heffeithio gan gyhoeddiadau niweidiol). Mae hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid cymdeithasu yn nodweddion cyson o faterion dirmyg.

Mae canlyniadau canfyddiad o ddirmyg yn ddifrifol. Nid yw'n drosedd, ond gellir dirwyo person a geir mewn dirmyg, ei garcharu am hyd at ddwy flynedd, neu atafaelu ei asedau. Mae prinder data ar ganfyddiadau dirmyg a'r sancsiynau a osodir, ond mae'n debygol bod mwy na 100 o bobl bob blwyddyn yn derbyn dedfryd o garchar ar unwaith neu ohiriedig (a ddisgrifir yn ffurfiol fel traddodi i'r carchar). Gall llysoedd sifil neu droseddol osod sancsiynau.

## Adolygiad cynhwysfawr

Mae cyfraith dirmyg llys wedi wynebu rhai problemau sylweddol. Mae diffyg cydlyniant, cysondeb ac eglurder yn y gyfraith a'r weithdrefn fel y mae'n gweithredu ar draws pob llys sifil (gan gynnwys llysoedd teulu a'r Llys Gwarchod), pob llys troseddol, ac mewn rhai tribiwnlysoedd. Mae gorgyffwrdd ac ansicrwydd yn ei berthynas â rhai troseddau. Mae goruchafiaeth cyfathrebu ar-lein yn y cyfryngau modern – gan gynnwys cynnydd y cyfryngau cymdeithasol – wedi newid y dirwedd cyhoeddi a gwybodaeth.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, yn 2022 gofynnodd y Llywodraeth inni gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddirmyg. Mae ein hadolygiad wedi archwilio'r angen am ddiwygio gyda'r nod o wella tegwch, effeithiolrwydd, cysondeb a chydlyniant y gyfraith a'r weithdrefn sy'n ymwneud â dirmyg llys.

## Ymgynghori

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddom bapur ymgynghori a oedd yn nodi cynigion dros dro ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer atebolrwydd dirmyg, cwmpas amddiffyniad dirmyg a phwerau dirmyg ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd, rôl y Twrnai Cyffredinol, gweithdrefn, cymorth cyfreithiol, costau, sancsiynau ac apeliadau.

Yn ystod ein hymgynghoriad, fe wnaethom gyfarfod ag aelodau o'r farnwriaeth, cyfreithwyr, academyddion, cyfreithwyr a newyddiadurwyr y cyfryngau, swyddogion y Llywodraeth, sefydliadau cymdeithas sifil, ac aelodau'r cyhoedd. At ei gilydd, fe wnaethon ni gyfarfod â thua 450 o bobl ar draws mwy na 40 o ddigwyddiadau ymgynghori, cyfarfodydd a byrddau crwn. Cawsom dros 150 o ymatebion ysgrifenedig.

### Cwestiynau dirmyg yn dilyn y llofruddiaethau yn Southport

Ar ôl i ni gyhoeddi ein papur ymgynghori, roedd ffocws o'r newydd ar atebolrwydd am ddirmyg yn dilyn llofruddiaethau Elsie Dot Stancombe (saith oed), Alice da Silva Aguiar (naw oed) a Bebe King (chwech oed) yn Southport ar 29 Gorffennaf 2024.

Yn y dyddiau a'r wythnosau yn dilyn yr ymosodiadau, datblygodd anhrefn cyhoeddus sylweddol ac eang ledled y DU. Defnyddiwyd miloedd o swyddogion heddlu, ac arweiniodd trais at anafiadau i gannoedd lawer o bobl, gan gynnwys aelodau diniwed o'r cyhoedd a thri chant o swyddogion, ac arweiniodd at gannoedd o erlyniadau.

Yn berthnasol i'n hadolygiad ni, awgrymwyd bod yr anhrefn yn ganlyniad anuniongyrchol cyfreithiau dirmyg llys: wrth gyfyngu ar ba wybodaeth y gallai awdurdodau cyhoeddus ei datgelu mewn perthynas â'r diffynnydd (megis ei ethnigrwydd a'i statws mewnfudo), helpodd cyfraith dirmyg i greu gwactod gwybodaeth lle gallai gwybodaeth anghywir, camwybodaeth a gwrth-naratifau ledaenu heb eu rheoli. Cododd y dadleuon gwestiynau ynghylch pa wybodaeth y gellid ei chyhoeddi ar ôl i rywun dan amheuaeth gael ei arestio ac i achos troseddol ddod yn weithredol o dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981.

Rydym yn trafod yr argymhellion sy'n berthnasol i'r materion hyn isod.

## Adroddiad ac argymhellion

Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad mewn dwy ran.

- Mae Rhan 1 yn nodi fframwaith newydd ar gyfer atebolrwydd am ddirmyg ac yn ystyried rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achosion dirmyg. Mae'r crynodeb hwn yn tynnu sylw at yr argymhellion allweddol a wnawn yn rhan 1.
- Bydd Rhan 2 yn ymdrin â'r materion sy'n weddill. Bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2026.

# Ein hargymhellion ar gyfer fframwaith atebolrwydd newydd

Rydym yn argymell fframwaith newydd ar gyfer atebolrwydd dirmyg. Fodd bynnag, nid yw ein hargymhellion wedi'u cynllunio i newid sylfeini atebolrwydd dirmyg yn sylfaenol (ac nid ydynt yn gwneud hynny chwaith). Yn hytrach, mae pwrpas y fframwaith yn ddeublyg. Yn gyntaf, i egluro a chodeiddio'r elfennau sy'n ofynnol i brofi dirmyg. Yn ail, i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei daro rhwng y gwahanol hawliau a buddiannau sy'n cael eu heffeithio gan yr angen i weinyddu cyfiawnder yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys amddiffyn hawliau treial teg, gallu llysoedd i reoli achosion er budd pawb, a hawliau i ryddid mynegiant. Bydd yr hyn y mae'r amrywiol hawliau a'r amddiffyniadau hynny'n ei gwneud yn ofynnol gan ddirmyg yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun a natur yr ymddygiad.

### Diystyru dirmyg sifil a throseddol

Yn draddodiadol, mae pob dirmyg llys wedi disgyn i un o ddau gategori: dirmyg sifil neu ddirmyg troseddol. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth rhwng dirmyg sifil a throseddol yn glir nac yn gydlynol. Mae wedi arwain at ddryswch ac nid yw'n cyflawni llawer o bwrpas ymarferol. Roedd cefnogaeth gref i'n cynnig dros dro na ddylai'r gwahaniaeth hwn chwarae unrhyw rôl mewn fframwaith dirmyg diwygiedig.

**Rydym yn argymell** y dylai fframwaith diwygiedig ar gyfer atebolrwydd am ddirmyg llys gael gwared ar y gwahaniaeth traddodiadol rhwng dirmyg sifil a throseddol.

## Y fframwaith atebolrwydd newydd: pedwar math o ddirmyg

Gall llawer o wahanol fathau o ymddygiad ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder neu greu'r risg o ymyrraeth. Bydd a fydd ymddygiad person yn gyfystyr â dirmyg llys yn dibynnu ar raddau'r ymyrraeth wirioneddol neu'r risg o ymyrraeth a ddeilliodd o'u hymddygiad a'r amgylchiadau y digwyddodd ynddynt, ac ar raddau'r bai. Penderfynir ar fai drwy gyfeirio at gyflwr meddwl y person ar yr adeg y gwnaethant gyflawni'r ymddygiad. Weithiau efallai y bydd person yn gallu dibynnu ar amddiffyniad i esbonio neu gyfiawnhau'r hyn y mae wedi'i wneud ac felly ni fydd yn atebol am ddirmyg.

Ein man cychwyn yw na ddylai person fod yn atebol am ddirmyg oni bai:

1. ei fod wedi ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder mewn ffordd nad yw’n ddibwys, neu fod ei ymddygiad wedi creu risg sylweddol o ymyrraeth o’r fath, a
2. pan wnaeth weithredu roedd yn bwriadu ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder.

Mae prawf o fwriad i ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder – “bwriad penodol”, fel y’i gelwir – yn bwysig gan fod y sancsiynau am ddirmyg yn cynnwys carchar, a gellir gosod carchar gan lys troseddol neu lys an-droseddol.

Mae'r trothwyon hyn o ymyrraeth nad yw'n ddibwys a bwriad penodol yn sail i'r prawf ar gyfer yr hyn a alwn ni'n "ddirmyg cyffredinol".

**O dan dri amgylchiad bydd rhesymau da dros wyro oddi wrth y trothwyon hynny. Mae ein tri math arall o ddirmyg yn adlewyrchu pob un o'r amgylchiadau hyn.**

**Rydym yn argymell** dylai fod pedwar math o atebolrwydd dirmyg:

- Dirmyg cyffredinol
- Dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymrwymiad llys
- Dirmyg trwy gyhoeddi pan fydd achos cyfreithiol ar waith
- Dirmyg drwy amharu ar drafodion

Yn gyntaf, rydym yn egluro'r tri math penodol o ddirmyg ac yna'n egluro dirmyg cyffredinol.

### Y safon prawf

Ym mhob un o'n ffurfiau o ddirmyg rhaid profi'r elfennau y tu hwnt i amheuaeth resymol, sef y sefyllfa hefyd o dan y gyfraith bresennol.

## Dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymrwymiad llys

Pan fydd gorchymyn neu ymrwymiad llys wedi'i dorri yna mae trothwy bai is ac elfen ymddygiad wahanol yn gyfiawn. Mae hyn oherwydd bod y diffynnydd wedi cael rhybudd am ei rwymedigaeth i wneud neu beidio â gwneud yr ymddygiad gan y gorchymyn, neu drwy roi ymrwymiad gwirfoddol, ac, er mwyn gweinyddu cyfiawnder yn effeithiol, mae angen sicrhau bod gorchmynion ac ymrwymiadau'n cael eu dilyn.

**Rydym yn argymell** y bydd dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymrwymiad llys yn cael ei sefydlu lle mae person wedi torri gorchymyn neu ymrwymiad. Cyn y toriad, rhaid bod y gorchymyn wedi cael ei gyflwyno a'i gyhoeddi yn unol â chyfarwyddiadau a rheolau'r llys. Rhaid bod y llys wedi rhoi rhybudd dirmyg i'r unigolyn, ac eithrio mewn achosion sy'n ymwneud â gorchmynion wedi'u selio lle na fydd methu â rhoi rhybudd dirmyg yn atal canfyddiad o ddirmyg, ar yr amod na fyddai gwneud hynny'n arwain at anghyfiawnder.

**Rydym yn argymell** tri amddiffyniad i'r math hwn o ddirmyg. Ni fydd person yn atebol am doriad os gall brofi, ar sail tebygolrwydd:

1. roedd yr ymddygiad a oedd yn ffurfio'r toriad yn ddamweiniol;
2. ni sylweddolodd y person ei fod yn torri'r gorchymyn oherwydd ei fod wedi gwneud camgymeriad ffeithiol diniwed (nad yw'n cynnwys camgymeriadau ynghylch telerau'r gorchymyn neu'r ymrwymiad); neu
3. nid oedd gan y person wybodaeth am y gorchymyn (er, er mwyn i hyn fod yn berthnasol, rhaid dangos hefyd bod y gorchymyn wedi'i gyfleu ar lafar pan nad oedd y person yn bresennol yn y llys, neu fod gan y gorchymyn effaith yn erbyn y byd i gyd).

Mae ein hargymhellion yn cadw ac yn codeiddio'r gyfraith bresennol i raddau helaeth o ran yr hyn y mae'n rhaid ei brofi i sefydlu dirmyg pan fydd person wedi torri gorchymyn llys. Fodd bynnag, o dan ein hargymhellion ni fydd y dull o ymdrin â dirmyg sy'n deillio o dorri gorchymyn yn dibynnu mwyach ar y math o orchymyn a wnaed. Er enghraifft, o dan y gyfraith bresennol, gall torri gorchmynion mewn anghydfodau cyfreithiol preifat fod yn gyfystyr â dirmyg sifil, tra gall torri rhai gorchmynion, megis cyfyngiadau ar ohebu, fod yn gyfystyr â dirmyg troseddol. Gan fod ein fframwaith argymelledig yn diystyru'r gwahaniaeth rhwng dirmyg troseddol a sifil, bydd dirmyg drwy dorri gorchymyn yn berthnasol i unrhyw orchymyn llys.

Mae ymrwymiadau'n wahanol i orchmynion llys, yn fwyaf nodedig oherwydd eu bod yn cael eu gwneud yn wirfoddol. Ymrwymiadau ffurfiol, sy'n gyfreithiol rwymol ydyn nhw, a roddir i'r llys gan berson sy'n cytuno i wneud rhywbeth neu i ymatal rhag gwneud rhywbeth. Gellir canfod person mewn dirmyg am dorri ymrwymiad o dan amodau tebyg i'r rhai am dorri gorchymyn llys, ac eithrio nad oes angen sefydlu'r dull y rhoddwyd yr ymrwymiad drwyddo (h.y. naill ai ar lafar yn bersonol neu wedi'i gyflwyno). Yn ogystal, dim ond mewn perthynas â diffyg gwybodaeth am y rhybudd dirmyg y gellir defnyddio amddiffyniad diffyg gwybodaeth lle bu torri ymrwymiad, ac nid yr ymrwymiad ei hun.



## Dirmyg trwy gyhoeddi pan fydd achos cyfreithiol ar waith

Pan fydd person yn cyhoeddi deunydd sy'n peryglu niweidio achos cyfreithiol gweithredol, mae trothwy bai is a throthwy ymddygiad uwch yn gyfiawn. Mae trothwy bai is yn gyfiawn oherwydd bod cyhoeddusrwydd niweidiol yn peryglu hawl y diffynnydd i gael achos teg a bod yr achos yn agos, ar yr amod bod y trothwy is yn cyd-fynd ag elfen ymddygiad uwch o rwystr neu ragfarn ddifrifol wirioneddol neu risg ohoni, a chyn belled â bod yr achos yn cael ei gydsynio gan y Twrnai Cyffredinol neu ei ddwyn ganddo.

Mae'r trothwy bai is yn amddiffyn hawliau treial teg (yn enwedig hawliau diffynnydd mewn achos troseddol). Mae hefyd yn gwasanaethu i ddiogelu tegwch yr achos mewn unrhyw fater sy'n destun cyhoeddusrwydd. Ar yr un pryd, mae'r trothwy ymddygiad uwch a rôl y Twrnai Cyffredinol yn amddiffyn rhyddid mynegiant i sicrhau nad yw trafodaeth materion o fudd i'r cyhoedd yn cael ei chyfyngu'n anghymesur.

**Rydym yn argymell** bydd dirmyg trwy gyhoeddi pan fydd achos cyfreithiol yn weithredol yn cael ei sefydlu lle:

- cyhoeddodd y diffynnydd ddeunydd sy'n creu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder mewn achosion gweithredol yn cael ei rwystro neu ei ragfarnu'n ddifrifol; a
- roedd y diffynnydd yn ymwybodol o risg bod achos cyfreithiol ar waith.

**Rydym yn argymell** bydd amddiffyniad ar gael lle roedd y cyhoeddiad er budd y cyhoedd a lle roedd y risg o rwystro neu ragfarnu'r achos "yn atodol i'r drafodaeth yn unig".

Mae ein hargymhellion yn cadw llawer o'r gyfraith bresennol o dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981 (CCA 1981), ond byddent yn diwygio'r gyfraith mewn tair ffordd bwysig:

- Yn gyntaf, byddai'r cyfnod y mae achosion troseddol ac estraddodi yn cael eu hystyried yn weithredol yn newid. **Rydym yn argymell y dylid ystyried bod achos troseddol yn weithredol o'r pwynt y caiff rhywun dan amheuaeth ei gyhuddo** hyd at y pwynt o'r dyfarniad neu bledio'n euog, ac y dylid ystyried bod achos estraddodi yn weithredol o'r pwynt y mae'r sawl dan amheuaeth yn ymddangos gyntaf mewn llys yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â chais/arestio i estraddodi naill ai i'r DU neu o'r DU.
- Yn ail, wrth fynnu prawf o fai, mae ein hargymhellion yn wahanol i'r dull "atebolrwydd llym" presennol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith bresennol i bob pwrpas yn un o atebolrwydd llym oherwydd bod amddiffyniadau (gan gynnwys cyhoeddi diniwed) ar gael. O ganlyniad, y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol yw, o dan ein hargymhellion, na fyddai'r diffynnydd bellach yn dwyn baich prawf gwrthdro. Yn hytrach, byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y diffynnydd yn ymwybodol o risg bod achos cyfreithiol ar waith.
- Yn olaf, byddai'r amddiffyniad budd y cyhoedd presennol yn adran 5 o Ddeddf CCA 1981 yn cael ei egluro i nodi bod a yw cyhoeddiad yn "ddim ond yn atodol" yn dibynnu ar ba mor agos y mae pwnc y cyhoeddiad yn gysylltiedig â'r achos cyfreithiol penodol. Nid ydym yn argymell ffurf ehangach o amddiffyniad er budd y cyhoedd, boed ar sail budd y cyhoedd yn benodol neu ar sail gulach diogelwch y cyhoedd neu ddiogelwch cenedlaethol.

# Beth ellir ei ddweud ar ôl i rywun dan amheuaeth gael ei arestio?

**Mae ein hargymhellion ar ddirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achosion cyfreithiol ar waith yn arbennig o berthnasol i'r materion dirmyg a gododd yn dilyn y llofruddiaethau yn Southport.**

Bydd ein hargymhelliad y bydd y pwynt lle mae achos cyfreithiol yn dod yn weithredol yn symud o'r arestio i'r cyhuddiad yn berthnasol, yn enwedig lle nad yw cyhuddiad yn dilyn arestio yn gyflym, ond dylid nodi y bydd dirmyg cyffredinol (a eglurir isod) yn dal i fod yn berthnasol cyn cyhuddiad. Unwaith y bydd yr achos yn weithredol, bydd ein hargymhelliad i gadw'r trothwy presennol yn berthnasol. Hynny yw, byddai'r prawf presennol yr un fath: byddai atebolrwydd yn cael ei sefydlu lle mae cyhoeddiad yn creu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn yr achos dan sylw yn cael ei rwystro neu ei ragfarnu'n ddifrifol.

Rhaid i'r prawf cyfreithiol ar gyfer dirmyg osod trothwy clir yn hytrach na dibynnu ar eithriadau neu ragdybiaethau categorïaidd. Bydd ei gymhwysiad o reidrwydd yn benodol i gyd-destun ac yn sensitif i ffeithiau.

Mae canllawiau sy'n nodi categorïau o wybodaeth fel rhai sy'n ddiogel i'w cyhoeddi yn gyffredinol yn cyflawni swyddogaeth weithredol bwysig. Mae'n darparu eglurder a chysondeb i heddluoedd a sefydliadau'r cyfryngau, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus yn gyflym. Fodd bynnag, rhaid deall canllawiau o'r fath fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant, o ystyried y gofyniad cyfreithiol i asesu risg yn ei chyd-destun.

Rydym yn cytuno â'r ymgyngoreion nad yw cyhoeddi manylion penodol – fel enw, oedran, cenedligrwydd ac ethnigrwydd rhywun dan amheuaeth – yn debygol o greu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn cael ei rwystro neu ei ragfarnu'n ddifrifol. Adlewyrchir y dull hwn mewn canllawiau dros dro diweddar gan y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, sy'n argymell rhyddhau gwybodaeth o'r fath mewn "ymchwiliadau neu weithrediadau proffil uchel neu sensitif" lle mae, er enghraifft, "diben plismona" neu "risg neu effaith gysylltiedig ar ddiogelwch y cyhoedd".[1]

Er bod canllawiau o'r fath yn ddefnyddiol yn weithredol, rhaid i'r prawf cyfreithiol ar gyfer dirmyg fod yn ddibynnol ar gyd-destun ac ni ellir ei leihau i gategorïau sefydlog. Byddai ceisio diffinio rhai mathau o wybodaeth fel rhai sydd bob amser yn ddiogel i'w cyhoeddi yn peri risg o greu sicrwydd ffug na fyddai risg sylweddol o rwystr neu ragfarn ddifrifol yn codi.

Er enghraifft, er na fydd statws mewnfudo rhywun dan amheuaeth fel arfer yn bodloni'r trothwy ymddygiad, gallai wneud hynny o bosibl lle mae'r arestio'n ymwneud â throseddau mewnfudo a bod y statws mewnfudo yn ganolog i'r achos. Mewn achosion o'r fath, gallai cyhoeddi niweidio'r achos. Yn yr un modd, gall crefydd rhywun dan amheuaeth fodloni'r trothwy, neu beidio, yn dibynnu ar y cyd-destun ffeithiol.

1 NPCC a CofP, *Canllawiau dros dro ynghylch ethnigrwydd a/neu genedligrwydd y rhai dan amheuaeth* (11 Awst 2025) t. 1. Mae'r canllawiau dros dro hynny wedi'u hymgorffori mewn canllawiau drafft a gyhoeddwyd gan y CofP ar 5 Tachwedd 2025, y mae'r CofP yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd: CofP, *Cyfryngau a chyfathrebu: Ymarfer proffesiynol awdurdodedig (APP) – ymgynghoriad* (Tachwedd 2025); CofP, '*Y cyfryngau a chyfathrebu – dweud eich dweud*' (5 Tachwedd 2025).

## Dirmyg drwy amharu ar drafodion

Pan fydd person yn amharu ar achosion llys, mae trothwy bai is yn gyfiawn oherwydd yr ymyrraeth gynhenid y mae ymddygiad o'r fath yn ei hachosi i weinyddu cyfiawnder. Yn unol â hynny, rydym yn argymell categori arall o ddirmyg: dirmyg drwy amharu ar achosion. Er bod amharu yn gategori arall a reolir amlaf gan farnwyr heb droi at fesurau ffurfiol, rhaid i'r llysoedd gael yr offer angenrheidiol i reoli achosion er mwyn sicrhau gweinyddu cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon. Mae cyfraith dirmyg yn un o'r offerynnau hynny, ochr yn ochr â phwerau eraill, fel y pŵer i eithrio rhywun o'r llys neu eu cadw dros dro.

**Rydym yn argymell** y bydd dirmyg drwy amharu ar achosion yn cael ei sefydlu lle mae'r person wedi ymgymryd ag ymddygiad camdriniol, bygythiol neu anhrefnus a arweiniodd at amharu ar yr achos. Rhaid i'r barnwr neu swyddog llys dystio i'r ymddygiad hwn (e.e., ei weld neu ei glywed). Yn olaf, rhaid bod y person wedi bwriadu cyflawni'r weithred a bod wedi bod yn ymwybodol bod achos cyfreithiol yn digwydd pan wnaethant ei gyflawni.

Mae ein hargymhellion yn cadw agweddau arwyddocaol ar y gyfraith bresennol. Er enghraifft, mae gan y Llys Sirol a llysoedd ynadon bwerau statudol i ddelio ag amharu fel dirmyg heb brawf o fwriad penodol, a chynhaliodd y Llys Apêl yn *R v Jordan* na fydd angen prawf o fwriad penodol lle mae dirmyg sy'n amharu.[2] Mae ein hargymhellion yn creu prawf unffurf ar gyfer pob llys.

## Dirmyg cyffredinol

Dirmyg cyffredinol yw'r ffurf olaf o atebolrwydd yn ein fframwaith ni. Mae'r math hwn o atebolrwydd yn cynnwys unrhyw ddirmyg nad yw'n dod o dan ddirmyg trwy dorri gorchymyn neu ymrwymiad, neu o fewn dirmyg trwy gyhoeddi pan fydd achos cyfreithiol ar waith, neu o fewn dirmyg trwy amharu ar achos cyfreithiol. Mae hyn yn golygu bod dirmyg cyffredinol yn darparu'r sail ar gyfer ymdrin ag ystod eang o ymddygiad fel dirmyg.

**Rydym yn argymell** bydd dirmyg cyffredinol yn cael ei sefydlu lle:

- ymyrrodd ymddygiad y diffynnydd â gweinyddu cyfiawnder mewn ffordd nad oedd yn ddibwys, neu greodd risg sylweddol o ymyrraeth nad oedd yn ddibwys â gweinyddu cyfiawnder (yr elfen ymddygiad); a
- roedd y diffynnydd yn bwriadu ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder mewn ffordd nad oedd yn ddibwys (yr elfen bai).

Rydym yn dod i'r casgliad nad yw di-hidrwydd yn safon briodol o fai ar gyfer dirmyg cyffredinol.

O ran yr elfen ymddygiad, mae'r math o ymddygiad a all fod yn gymwys fel dirmyg cyffredinol o reidrwydd yn eang er mwyn dal yr ystod amrywiol o ymddygiad a allai ymyrryd â gweinyddiaeth cyfiawnder. Gallai diffinio ymhellach y math o ymddygiad a allai fod yn gyfystyr â dirmyg cyffredinol fod yn ddi-fudd o ystyried yr angen i gynnwys ystod eang o ymddygiad. Rydym hefyd yn dymuno caniatáu ar gyfer datblygiadau technolegol posibl a allai alluogi mathau newydd o ymddygiad sy'n ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder.

2 Deddf Llysoedd Sirol 1984, adran 118(1)(b); CCA 1981 adran 12(1)(b); *R v Jordan* [2024] EWCA Crim 229.

**Rydym yn argymell** y dylai dirmyg cyffredinol fod yn berthnasol cyn i achos cyfreithiol gychwyn, gan gynnwys pan fydd achos cyfreithiol ar fin digwydd a hefyd cyn i achos cyfreithiol fod ar fin digwydd.

Mae hyn yn sicrhau, lle gwneir datganiadau ffug cyn i achos cyfreithiol ddechrau'n ffurfiol – er enghraifft, lle gwneir datganiadau fel rhan o brotocolau cyn-achos wrth ragweld achos cyfreithiol – yna bydd cyfreithiau dirmyg yn gymwys. Rydym wedi ystyried a oes risg y bydd newyddiaduraeth ymchwiliol yn cael ei heffeithio gan yr argymhelliad hwn. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y risg yn isel a bod y gofyniad i brofi bwriad i ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder yn ddiogelwch addas.

## Cydlyniant a moderneiddio

**Rydym yn argymell** newidiadau i rai darpariaethau statudol fel bod cyfraith dirmyg yn gydlynol ac i osgoi gorgyffwrdd â'r gyfraith droseddol. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion i ddiddymu darpariaethau penodol sy'n ymwneud â phwerau'r Llys Sirol a llysoedd ynadon i ddelio â sarhad ac amharu fel dirmyg; dylid delio â'r rhain yn lle hynny fel mathau o ddirmyg o dan ein fframwaith atebolrwydd a argymhellir.

**Rydym yn argymell** newidiadau sy'n moderneiddio'r gyfraith. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion bod y Llywodraeth yn ystyried adolygu rhai troseddau i sicrhau bod ffotograffiaeth, recordiadau fideo, a darlledu neu ffrydiau byw o sain neu fideo o achosion yn cael eu cynnwys, a bod cysondeb wrth gymhwyso dirmyg i achosion yn y llys ac o bell.[3]

**Rydym yn argymell** bod y pwyllgorau rheolau gweithdrefn yn ystyried datblygu proses awdurdodi i alluogi recordio sain yn gyfrifol a diogel mewn achosion gan newyddiadurwyr achrededig.

3 Yn benodol, rydym yn argymell bod y llywodraeth yn ystyried adolygu adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 ac adran 85B o Ddeddf y Llysoedd 2003.

# Y pedwar math o ddirmyg

## Dirmyg drwy darfu ar achos

**Ymddygiad:** roedd y person wedi ymddwyn yn gamdriniol, yn fygythiol, neu'n afreolus, gan arwain at darfu ar yr achos

**Amgylchiad:** roedd y barnwr neu un o swyddogion y llys wedi tystio i'r ymddygiad (ee, ei weld neu ei glywed).

**Bai:** roedd y person wedi cyflawni'r weithred yn fwriadol ac, ar yr adeg, roedd yn ymwybodol bod achos cyfreithiol yn mynd rhagddo.

## Dirmyg cyffredinol

**Ymddygiad:** roedd y person wedi ymyrryd â gweinyddiad cyfiawnder mewn ffordd o bwys, neu wedi creu risg sylweddol o ymyrryd â gweinyddiad cyfiawnder mewn ffordd o bwys.

**Bai:** bod y person wedi bwriadu ymyrryd â gweinyddiad cyfiawnder mewn ffordd o bwys.

## Dirmyg drwy dorri ymgymeriadau neu orchmynion llys

**Ymddygiad:** roedd y person wedi torri gorchymyn neu ymgymeriad.

**Amgylchiadau:**

- cafodd y gorchymyn ei gyflwyno a'i gyhoeddi yn unol â'r gyfraith; ac
- fe gyflwynodd y llys rybudd dirmyg i'r unigolyn (oni bai fod y gorchymyn wedi'i selio, os felly, bydd gan y llys sy'n gwrando'r cais dirmyg ddisgresiwn i esgusodi'r gofyniad hwn ar yr amod na fyddai hynny'n arwain at anghyfiawnder).

**Amddiffyniadau:**

**Damwain:** damweiniol oedd yr ymddygiad a oedd yn torri'r amodau; neu

**Camgymeriad yn y ffeithiau:** nid oedd y person wedi sylweddoli ei fod yn torri'r gorchymyn oherwydd roedd wedi camgymryd y ffeithiau'n ddiniwed (heb gynnwys camgymeriadau ynghylch telerau'r gorchymyn); neu

**Diffyg gwybodaeth:** nid oedd y person yn gwybod digon am y gorchymyn (dim ond yn berthnasol i orchmynion a gyfathrebwyd ar lafar pan nad oedd y person yn bresennol yn y llys, neu i orchmynion sy'n effeithio ar y byd i gyd).

## Dirmyg drwy gyhoeddi tra mae achos yn mynd rhagddo

**Ymddygiad:** roedd y person wedi cyhoeddi (gofalu ei fod ar gael) cyhoeddiad a oedd yn peri risg sylweddol o rwystro neu ragfarnu'n ddifrifol weinyddiad cyfiawnder yn yr achos.

**Amgylchiad:** digwyddodd y cyhoeddiad tra oedd yr achos yn mynd rhagddo.

**Bai:** roedd y person yn ymwybodol o risg bod yr achos yn mynd rhagddo.

**Amddiffyniad:**

Ni fyddai person yn atebol os yw'r cyhoeddiad yn rhan o drafodaeth ddidwyll am faterion cyhoeddus neu faterion sydd o ddiddordeb cyffredinol i'r cyhoedd, ar yr amod mai damweiniol yn unig yw unrhyw risg o rwystro neu ragfarnu achos cyfreithiol penodol. Mae p'un a yw risg yn "ddamweiniol" yn dibynnu ar ba mor agos y mae pwnc y cyhoeddiad yn ymwneud â'r achos hwnnw.

## Y berthynas rhwng y pedwar math o ddirmyg

Gellir cychwyn achos dirmyg ar y sail bod diffynnydd wedi cyflawni dirmyg llys ar unrhyw un neu fwy o'r pedair sail uchod.

Rydym yn disgwyl y byddai ceisydd fel arfer yn honni mai dim ond un math o ddirmyg sydd wedi'i gyflawni, ond efallai y bydd amgylchiadau lle byddai ceisydd yn ceisio dadlau seiliau eraill. Er enghraifft, gall ceisydd ddadlau bod dirmyg drwy dorri gorchymyn wedi'i gyflawni a bod y diffynnydd hefyd neu fel arall yn atebol ar y sail ei fod wedi cyflawni dirmyg cyffredinol. Yn yr un modd, gallai diffynnydd sydd wedi cyhoeddi deunydd niweidiol pan fydd achos cyfreithiol ar waith fodloni'r trothwy ar gyfer naill ai dirmyg trwy gyhoeddi pan fydd achos cyfreithiol ar waith a dirmyg cyffredinol o bosibl, neu'r ddau. Fodd bynnag, byddai'n anarferol iawn i ddirmyg drwy amharu ar achos fod yn sail amgen gan y byddai achos ar gyfer y math hwn o ddirmyg fel arfer yn cael ei gychwyn ar gynnig y llys ei hun.

Gall y rhesymau dros ddadlau seiliau amgen neu ychwanegol amrywio, ond gallai fod y byddai prawf o fwriad i ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder (sy'n ofynnol ar gyfer dirmyg cyffredinol) yn arwain at sancsiynau mwy difrifol. Nid yw hyn yn golygu bod "hierarchaeth" o fathau o ddirmyg. Y cwestiwn ym mhob achos fydd a ellir bodloni elfennau'r math hwnnw o ddirmyg.

Nid yw ein hargymhellion yn golygu mai dim ond drwy amharu ar achosion y gellir mynd i'r afael â tharfu o dan ddirmyg. Gall llys ganfod bod elfennau dirmyg cyffredinol wedi'u bodloni pan fydd amharu, a gall prawf o fwriad fod yn berthnasol i sancsiynau.

Lle mae math o ddirmyg wedi'i brofi yna bydd canfyddiad o ddirmyg (yn hytrach nag, er enghraifft, canfyddiad o ddirmyg llys dorri gorchymyn).

Ni ellid cael diffynnydd yn atebol am ddirmyg mwy nag unwaith am yr un ymddygiad gan y byddai hynny'n torri'r rheol yn erbyn erlyniad dwbl.



## Adran 12 o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960

Mae Adran 12 o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960 yn gosod atebolrwydd dirmyg am gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â rhai achosion a glywir yn breifat – er enghraifft, achosion sy'n ymwneud â phlant, iechyd meddwl, neu ddiogelwch cenedlaethol.

Nid yw adran 12 yn amddiffyn person rhag bod yn atebol am fathau eraill o ddirmyg. Er enghraifft, os yw cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â llys sy'n eistedd yn breifat yn creu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn cael ei rwystro neu ei ragfarnu'n ddifrifol, gallai fod yn ddirmyg o dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981 o hyd. Pan fydd dirmyg yn codi o dan adran 12, caiff ei drin fel ffurf ar wahân o ddirmyg.

Mae Adran 12 yn gweithredu heb graffu barnwrol nac asesiadau cymesuredd. Gall osod atebolrwydd hyd yn oed lle nad yw'r cyhoeddwr yn ymwybodol o'r cyfyngiad, gan greu canlyniadau anghyson ac o bosibl rhai anghyfiawn.

Er mwyn hyrwyddo tegwch a chydlyniant o fewn fframwaith dirmyg – ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y llysoedd teulu ac ymgyngoreion perthnasol – **rydym yn argymell** diddymu adran 12(1)(a), (b), ac (e), a fyddai'n effeithio ar achosion preifat sy'n ymwneud â phlant a materion iechyd meddwl. Dylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar adrodd drwy orchmynion clir a gyhoeddir gan y llys sy'n cyd-fynd â safonau hawliau dynol.

**Rydym yn argymell ymhellach** bod y llywodraeth yn ystyried diddymu adran 12(1)(d) (sy'n ymwneud â gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phroses gyfrinachol, darganfyddiad neu ddyfais). Er nad yw'r dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn cefnogi argymhelliad pendant ar gyfer diddymu, mae'n dangos nad yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio'n weithredol mewn achosion o'r fath.

Nid ydym yn argymell diddymu adran 12(1)(c) (gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch gwladol). Dywedwyd wrthym fod adran 12 yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gynnal y protocolau diogelwch cadarn sy'n galluogi goruchwyliaeth gynhwysfawr o dystiolaeth berthnasol ac yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd yn y broses farnwrol.

# Rôl y Twrnai Cyffredinol

Mae'r Twrnai Cyffredinol yn weinidog y llywodraeth ac yn brif gynghorydd cyfreithiol i'r llywodraeth. Yn draddodiadol, mae'r Twrnai Cyffredinol wedi cael ei ystyried yn warcheidwad budd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder ac mae ganddo swyddogaeth gyfansoddiadol yn hynny o beth. Mae'r "swyddogaeth dirmyg" yn cynnwys dwyn achos am ddirmyg llys lle mae er budd y cyhoedd i wneud hynny, beth bynnag fo natur y dirmyg. O dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981, dim ond gan neu gyda chydsyniad yr Twrnai Cyffredinol y gellir dwyn achos am ddirmyg cyhoeddi atebolrwydd llym. Nid oes angen caniatâd y Twrnai Cyffredinol i gychwyn achos dirmyg arall.

Rydym yn ystyried a ddylai'r Twrnai Cyffredinol gadw'r swyddogaeth dirmyg yng ngoleuni pryderon y gallai cymeriad gwleidyddol rôl y Twrnai Cyffredinol arwain at ragfarn wirioneddol neu ymddangosiadol mewn penderfyniadau ynghylch a ddylid dwyn achos neu wrthod dwyn achos, neu roi neu wrthod caniatâd i berson sy'n dymuno dwyn achos am ddirmyg cyhoeddi atebolrwydd llym o dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981.

**Rydym yn argymell** y dylai'r Twrnai Cyffredinol gadw'r swyddogaeth dirmyg. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn addas iawn i benderfynu a yw er budd y cyhoedd i ddwyn achos cyfreithiol ac nad oes unrhyw gyrff nac unigolion eraill priodol clir a allai arfer y swyddogaeth dirmyg.

Rydym yn dod i'r casgliad mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon ynghylch y gwrthdaro buddiannau ar ran y Twrnai Cyffredinol yw drwy wneud ei benderfyniadau'n agored i adolygiad gan y llysoedd. Mae cyfraith adolygiad barnwrol yn caniatáu i lysoedd adolygu penderfyniadau a wneir gan y llywodraeth neu gyrff cyhoeddus. Er bod y sail ar gyfer adolygu a'r rhwymedïau sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r posibilrwydd o adolygiad barnwrol yn sicrhau atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau. O dan y gyfraith bresennol, mae'n ymddangos na ellir adolygu penderfyniadau dirmyg a wneir gan y Twrnai Cyffredinol yn farnwrol.

**Rydym yn argymell** y dylai pob penderfyniad dirmyg a wneir gan y Twrnai Cyffredinol fod yn destun adolygiad barnwrol.

Ar hyn o bryd, mae angen caniatâd y Twrnai Cyffredinol ar gyfer achos cyfreithiol am ddirmyg atebolrwydd llym drwy gyhoeddi.

**Rydym yn argymell** y dylid cadw'r gofyniad hwn a dim ond gan neu gyda chydsyniad y Twrnai Cyffredinol y caniateir dwyn achos dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol (oni bai bod y llys yn gweithredu ar ei gynnig ei hun).

Mae'r gofyniad am ganiatâd gan y Twrnai Cyffredinol yn amddiffyniad gwerthfawr i ryddid mynegiant. Mae'n cyfyngu ar nifer y ceisiadau dirmyg y gellir eu dilyn yn erbyn y cyfryngau neu gyhoeddwyr eraill. Fodd bynnag, ni ddylai fod unrhyw ofyniad cydsyniad ar gyfer achosion cyfreithiol ar gyfer dirmyg cyffredinol, dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymrwymiad, neu ddirmyg drwy amharu ar achosion cyfreithiol.